

Canllawiau Shapefiles

Ar gyfer Cynlluniau Plannu Coetiroedd Taliadau Gwledig Cymru (RPW)

Cyflwyniad

O fis Tachwedd 2021, bydd Ffeiliau Gwybodaeth Ddaearyddol (GI) sy'n cynnwys ardaloedd wedi eu dewis ar gyfer cynlluniau Plannu Coetir yn cael eu cyhoeddi'n lle mapiau GeoPDF. Bydd Shapefiles yn galluogi Cynllunwyr Coetir i fewnforio data terfynau Datganiadau o Ddiddordeb (DOD) i'w system GI.

Bydd hyn yn caniatáu i Gynllunwyr ddefnyddio eu hoff feddalwedd GI eu hunain ar gyfer creu mapiau Cynlluniau.

Adran 1 – darparu Shapefiles

Pryd fydd Shapefiles yn cael eu darparu?

Bydd Shapefiles yn cael eu rhoi i bob cwsmer drwy RPW Ar-lein wedi iddynt gael eu dewis o dan gynllun plannu coetiroedd. Bydd y Shapefile yn cael ei ddarparu o fewn cynhwysydd ffeil .zip.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Shapefile?

Mae'r .zip Shapefile yn cynnwys tair haen – mae'r haen gyntaf yn cynnwys manylion terfynau parseli maes y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) a ddewiswyd o dan DOD, mae'r ail haen yn dempled gwag i gynllunwyr fapio data polygon (ardal blannu), ac mae'r drydedd haen yn dempled gwag i gynllunwyr fapio data llinellol (ffensio).

Bydd cynnwys y ffeil .zip yn ymddangos fel a ganlyn:



Nodyn pwysig - pan gaiff y Shapefile .zip ei lawr lwytho o RPW Ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw enw'r ffeil sydd yn dangos yn y neges RPW Ar-lein, ynghyd â rhif y fersiwn a ddangosir - h.y. [A0000000_7777777.zip](#) neu [A0000000_7777777_1.0.zip](#)

Mae gan y ffeil .zip y confensiwn enwi **CRN_EOIRreference.zip** a bydd yn cynnwys yr haenau siâp canlynol:

- **Parseli Tir LPIS a ddewiswyd – *lpis_CRN_EOIRreference.shp***

Mae'r haen hon yn cynnwys ardaloedd ffiniau parseli tir y parseli a ddewiswyd yn dilyn Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus. [Ni ddylid golygu'r haen hon.](#)

- **Templed Ardal Coetir Gwag – *woodlandarea_CRN_EOIRreference.shp***

Bydd angen l'r cynllunydd fapio holl bolygonau yr ardal blannu yn yr haen hon.

- **Templed Llinellol Coetir Gwag – *woodlandlinear_CRN_EOIRreference.shp***

Bydd angen l'r cynllunydd fapio'r holl nodweddion llinellol ffensiio yn yr haen hon.

Adran 2 – Ychwanegu i'r Shapefile

Dylai'r Cynllunwyr ychwanegu eu hychwanegiadau i'r haenau templed gwag Ardal a Llinellol yn unig. [Peidiwch](#) ag ychwanegu haenau ychwanegol.

[Ni ddylai](#) Cynllunwyr wneud unrhyw newidiadau l derfynau parseli tir yn yr haen ***lpis_CRN_EOIRreference***. Mae'r ffiniau yma yn 2ynode'r ardal a ddewiswyd ar gyfer y cynllun.

Map Cyfleoedd Coetiroedd


Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu a diweddarau eu porwr map gwe [Map Cyfleoedd Coetiroedd](#) (WOM) sydd bellach yn rhan o GeoPortal – MapData Cymru Llywodraeth Cymru. Gwyliwr ar-lein yw hwn sy'n rhoi canllaw cyffredinol i dirfeddianwyr a'i nod yw nodi ardaloedd o Gymru sydd fwyaf addas ar gyfer creu coetiroedd newydd. Mae'r map hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ddangos ardaloedd a allai fod yn sensitif i greu coetiroedd newydd ac yn cyfeirio at ganllawiau pellach ar ymgynghori â'r awdurdod priodol. Mae'r map yn berthnasol i'r **holl** gynigion i greu coetiroedd boed yn gyhoeddus neu'n cael eu hariannu'n breifat, ac fe'i defnyddir wrth asesu ceisiadau ar gyfer cynlluniau plannu Llywodraeth Cymru. Ei nod yw sicrhau bod coed yn cael eu plannu yn y lle iawn ar gyfer y budd mwyaf posibl.

I gynorthwyo Cynllunwyr Coetir wrth baratoi eu cynlluniau coetir, mae holl gyfyngiadau a sensitifeddu sydd yn gysylltiedig â'r safle plannu a ddewiswyd i'w cael ar gyfer lawrlwytho o'r WOM.

Cynhyrchwyd canllaw cyflawn i ddefnyddwyr i roi cyflwyniad i chi i'r Map Cyfleoedd Coetiroedd (WOM) wedi'i ddiweddarau ac mae'n dangos sut mae'r Map Cyfleoedd Coetiroedd yn gweithio er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar blannu coetiroedd newydd yng Nghymru. Mae'r ddolen i'w gweld yma [Map Cyfle Coetir: canllaw i ddefnyddwyr](#)

Canllawiau ar gyfer mapio nodweddion Ardal a Llinellol

Rhaid mapio'r holl bolygonau a nodweddion llinellol o fewn ffiniau'r Parsel Tir a ddewiswyd – mae'r ddelwedd isod yn dangos canllawiau ar gyfer mapio y dylid glynu atynt:



A ddylwn i ddefnyddio Polygonau Un Rhan neu Amfran?

Rhaid i bob polygon neu nodwedd linellol sydd wedi'u mapio fod yn un rhan yn unig. Rhaid i chi beidio ag ychwanegu polygonau lluosog (nad ydynt yn gyffiniol) neu nodweddion llinellol i'r un FID oherwydd y bydd y rhain yn cael eu gwrthod gan ein meddalwedd dilysu GI.

Ychwanegu haen wybodaeth

Bydd angen i bob polygon neu nodwedd linellol gael priodoleddau wedi'u hychwanegu yn ôl y math. Cyfrifoldeb y rhai sy'n creu'r cynllun yw sicrhau bod yr holl nodweddion a phriodoleddau'n cael eu cynnwys yn ofalus ac yn gywir.

Dangosir enghreifftiau o'r wybodaeth ofynnol am briodoleddau isod. Gwnewch yn siŵr fod y data sydd yn cael ei gadw yn y tablau yma yn cyd-fynd â'r Cynllun Coetir a gyflwynir:

Ardal – Polygon Plannu

Enw'r maes yn y Shapefile	Disgrifiad	Enghraifft o'r fformat sydd ei angen
FID	ID Maes (Awtomatig)	1
CRN	Cyfeirnod Cwsmer	A0000000
APPID	Cyfeirnod EOI	7777777
OSSHEET	Rhif Taflen Arolwg Ordnans	SN1234
NGFIELD	Rhif Maes y Grid Cenedlaethol	1234
SPECIES1 - 20	Rhywogaethau coed – hyd at 20 rhes	Rowan
PERCENT1 - 20	Canran yr arwynebedd – hyd at 20 rhes	99
GRANTCODE	Math o Opsiwn, e.e. 801 ar gyfer Bioamrywiaeth	801
SCHWINDOW	Ffenestr y cynllun	11
USERNAME	Golygydd / Enw'r cwmni	name / company
DATE	Dyddiad	YYYY-MM-DD
UNIQUEID	Defnyddio i gyfeirio at eitem yn y Cynllun.	1

woodlandarea	
USERNAME	Ronny Jones
(Derived)	
(Actions)	
ID	NULL
CRN	A0000000
APPID	3492455
OSSHEET	SN7820
NGFIELD	1111
SPECIES1	Alder
PERCENT1	20
SPECIES2	Oak
PERCENT2	20
SPECIES3	Willow
PERCENT3	20
SPECIES4	Rowan
PERCENT4	20
SPECIES5	Birch
PERCENT5	20
GRANTCODE	801
SCHWINDOW	10
USERNAME	Ronny Jones
DATE	2021-10-08
UNIQUEID	3

Llinellol – Llinell Ffensio

Enw'r maes yn y Shapefile	Disgrifiad	Enghraifft o'r fformat sydd ei angen
FID	ID Maes (Awtomatig)	1
CRN	Cyfeirnod Cwsmer	A0000000
APPID	Cyfeirnod EOI	7777777
OSHEET	Rhif Taflen Arolwg Ordans	SN1234
NGFIELD	Rhif Cae y Grid Cenedlaethol	1234
LINETYPE	Math o Opsiwn, e.e. 595 Ffensio	595
UNIQUEID	Defnyddio i gyfeirio at eitem yn y Cynllun.	1
GRANTCODE	Math o Opsiwn, e.e. 595 Ffensio	595
SCHWINDOW	Ffenestr y cynllun	2021
USERNAME	Golygydd / Enw cwmni	name / company
DATE	Dyddiad	YYYY-MM-DD

woodlandlinear	
USERNAME	Ronny Jones
(Derived)	
(Actions)	
ID	3
CRN	A0000000
APPID	4141441
OSSHEET	SN2345
NGFIELD	7839
LINETYPE	595
UNIQUEID	3
GRANTCODE	595
SCHWINDOW	10
USERNAME	Ronny Jones
DATE	2021-10-08

Nodyn pwysig: Ni ddylech addasu'r rhesi/colofnau o fewn y tablau priodolddau, ac mae hyn yn cynnwys cael gwared ar resi rhywogaethau/canran nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd gwneud hynny'n golygu y bydd y Shapefile a gyflwynir yn methu â chael ei ddilysu yn ein meddalwedd GI.

Adran 3 - Dychwelyd y Shapefile i RPW

Pan fydd yr holl fanylion plannu/ffensio a'r tabl priodolddau wedi'u creu, rhaid allforio'r tair haen (*Ipis*, *woodlandarea*, *woodlandlinear*) yn ôl i'r union fformat y cafodd y Shapefile ei ddarparu ynddo o fewn cynhwysydd .zip, gan gadw'r holl gonfensiynau enwi yn gyfan fel y daethant i law gan RPW. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech gymharu'r Shapefile rydych wedi'i gwblhau a'i gadw gyda'r Shapefile gwreiddiol a anfonwyd at y cwsmer gan RPW.

Noder **na ddylai** unrhyw haenau ychwanegol fod uwchben yr haenau *Ipis*, *woodlandarea*, *woodlandlinear* a gafodd eu cadw yn y Shapefile .zip. Os oes unrhyw haenau ychwanegol, bydd y Shapefile yn methu'r broses ddilysu.

Rhaid i enw ffeil y ffeil .zip a ddychwelir fod yr un fath ag a anfonwyd at y cwsmer (gan gynnwys rhif fersiwn os yw'n berthnasol).

Dylid dychwelyd y Shapefile .zip drwy gyfrif RPW Ar-lein y cwsmer, ynghyd â'r Cynllun Coetiroedd wedi'i lofnodi ac unrhyw ddogfennau ategol eraill.

Dilysu Shapefile

Ar ôl ei ddychwelyd i RPW, bydd y Shapefile yn cael ei ddilysu - bydd hyn yn gwirio bod strwythur y ffeil a'r confensiynau enwi yn gywir yn gyntaf, ac yna bydd yn chwilio am wallau geometreg a bod yr holl nodweddion wedi'u mapio o fewn graddau ffiniau parseli tir dethol. Mewn achosion lle mae dilysu RPW yn methu, bydd y Shapefile yn cael ei ddychwelyd i'r cwsmer drwy RPW Ar-lein i'w ddiwygio gan y Cynllunydd Coetir.

Ni fydd Shapefiles yn cael eu cyflwyno i CNC ar gyfer eu gwirio nes bod y dilysiad wedi'i gadarnhau.